SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

**Cylchlythyr #41 SCHTh Gogledd Cymru – 15 Mawrth 2024**
**OPCC North Wales Newsletter #41 – 15 March 2024**

## Ymgyrch yng Ngogledd Cymru yn amlygu diogelwch chwarae gemau ar-lein

Ym mis Mawrth, mae Tîm Troseddau Seiber Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ymuno hefo arbenigwyr diogelwch ar-lein sef Get Safe Online er mwyn amlygu rhai o fygythiadau chwarae gemau ar-lein - a sut y gall plant a phobl ifanc chwarae gemau'n saff. Mae Get Safe Online yn brif ffynhonnell gwybodaeth deg, ffeithiol a hygyrch ar ddiogelwch ar-lein yn y DU.

Yn un o'r difyrion ar-lein mwyaf poblogaidd i blant, mae chwarae gemau ar-lein hefo agweddau cadarnhaol a negyddol. Gall manteision chwarae gemau fynd o ddatblygu rhinweddau fel meddwl strategol, rhesymoli, datrys problemau a pharhau i helpu datblygu ystod eang o sgiliau gwybyddol a gweithredol. Mae hefyd yn annog creadigrwydd wrth gymdeithasu, er yn rhithiol, hefo ffrindiau. Mae risgiau i blant sy'n chwarae gemau ar-lein yn codi o'r nifer helaeth o bobl yn y DU a thramor sydd hefyd yn chwarae, y cyfyngiadau lleiaf a'r ffaith nad ydyn nhw'n chwarae wyneb yn wyneb. **Darllenwch fwy yma.**



## North Wales campaign highlights online gaming safety

This March, North Wales Police's Cyber Crime Team and the Office of the Police and Crime Commissioner are joining with online safety experts, Get Safe Online to highlight some of the threats of online gaming – and how children and young people can game safely. Get Safe Online is a leading source of unbiased, factual, and easy-to-understand information on online safety in the UK.

One of the most popular online pastimes for children, online gaming has both positive and negative aspects. The benefits of gaming can range from developing qualities such as strategic thinking, rationalising, problem solving

and persistence to supporting development of a wide range of cognitive and motor skills. What's more it can encourage creativity while socialising, albeit virtually, with friends.

Risks to children who play games online arise largely from the vast number of people both in the UK and abroad who are also playing, the minimal restrictions and the fact that they are not playing face-to-face. **Read more here.**

## SCHTh yn ymweld a'r enillwyr gronfa gymunedol

Mae menter yng Ngogledd Cymru sy'n helpu i gefnogi pobl ifanc leol yn dathlu ar ôl derbyn cyllid i sefydlu sylfaen newydd gan ddefnyddio arian a gymerwyd o enillion troseddau. Sefydlwyd Youth Shedz yn 2018 gyda'i leoliad gwreiddiol yn Ninbych ac erbyn hyn mae ganddo 11 o siediau sefydledig mewn trefi ledled Gogledd Cymru, megis Cyffordd Llandudno, Y Rhyl, Bae Cinmel, Blaenau Ffestiniog a Chaergybi (ynghyd â Betsi, sied symudol sy'n gallu ymweld â chymunedau ar draws y rhanbarth).

Mae Sied Ieuenctid yn debyg i gymuned neu ganolfan ieuenctid ac mae cael sied mewn tref yn lleihau'n sylweddol faint o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae hyn oherwydd ei fod yn darparu rhywle i bobl ifanc ddod at ei gilydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau cadarnhaol a gwerth chweil. Yr ethos yw nad oes unrhyw berson ifanc wedi'i eithrio a nod Youth Shedz yw cyrraedd pobl a allai fod yn llai tebygol o ymgysylltu â gwasanaethau ieuenctid traddodiadol prif ffrwd. **Darllenwch fwy yma.**

Draw yn Wrecsam mae grŵp cymunedol lleol yn defnyddio cyllid a gafodd ei atafaelu gan droseddwyr er mwyn creu mynediad hyfryd a chroesawgar i ysbyty fwyaf gogledd ddwyrain Cymru. Roedd Garddwyr Cymunedol Wrecsam, ddechreuodd ym mis Medi 2023 ac sy'n dod â 25 o wirfoddolwyr 10 i 70 oed at ei gilydd, yn un o enillwyr diweddar cyllid Eich Cymuned, ar gyfer euprosiect 'First Impressions' yn Ysbyty Maelor Wrecsam.

Diben Garddwyr Cymunedol Wrecsam ydy gwella a thrin y libartiau a mannau gwyrdd eraill yn Ysbyty Maelor Wrecsam er budd pob claf, staff ac ymwelydd. Nod y prosiect a dderbyniodd gyllid sef 'First Impressions' ydy adnewyddu a phlannu'r mannau gwyrdd o amgylch y tri phrif fynediad i'r ysbyty – y Prif Fynediad, Mynediad yr Adran Frys a Mynediad B. Ar ôl siarad hefo adran stadau, swyddogion diogelwch a rheolwyr yr ysbyty, cafodd yr ardaloedd hyn eu nodi fel bod angen gwella er mwyn argraff gyntaf well a chroeso i'r safle, gan annog cyrhaeddiad tawelach a llawer mwy deniadol i bawb. **Darllenwch fwy yma.**





## PCC visits winners of community fund

A North Wales initiative that helps support local young people is celebrating after receiving funding to set up a new base using money taken from the proceeds of crime. Youth Shedz was established in 2018 with its original location in Denbigh and now has 11 established sheds in towns across North Wales, such as Llandudno Junction, Rhyl, Kinmel Bay, Blaenau Ffestiniog, and Holyhead (along with Betsi, a mobile shed that can visit communities across the region). A Youth Shed is similar to a community or youth centre and having a shed in a town significantly reduces the amount of anti-social behaviour. This is because it provides somewhere for young people to get together and get involved in positive and worthwhile activities. The ethos is that no young person is excluded, and Youth Shedz aims to reach people who may be less likely to engage with mainstream traditional youth services. **Read more here.**

Over in Wrexham a local community group is using funding seized from criminals to create a wonderful and welcoming entrance to North-East Wales' largest hospital. Wrexham Community Gardeners, which started in September 2023 and brings together over 25 volunteers aged from 10 to 70, was one of the recent winners of Your Community, Your Choice funding for their 'First Impressions' project at Wrexham Maelor Hospital. Wrexham Community Gardeners' purpose is to improve and maintain the courtyards and other green spaces at Wrexham Maelor Hospital for the benefit of all patients, staff and visitors. The particular project that received funding, 'First Impressions', aims to renovate and plant the green areas around the three principle entrances to the hospital – the Main Entrance, Emergency Department Entrance and Entrance B. After speaking with the hospital estates department, hospital security and managers, these areas were identified as needing improvement to create a better first impression and welcome to the site, encouraging a calmer and more attractive arrival for all. **Read more here.**

## Llwyddiant cronfa gymunedol yn fendith i Glwb Pêl-droed Seintiau Bangor

Ar Fawrth 13, bu Andy Dunbobbin yn ymweld â Chlwb Pêl-droed Seintiau Bangor yng Nghanolfan Hamdden Byw'n Iach. Cafodd gipolwg ar waith dylanwadol y clwb gydag ieuenctid lleol a dysgodd sut mae cyllid o'r fenter Eich Cymuned, Eich Dewis yn cefnogi eu hymdrechion cymunedol. Yn ystod ei ymweliad, roedd y Comisiynydd Dunbobbin yng nghwmni SCCH lleol David Griffiths ac Uchel Siryf Gwynedd Janet Phillips.

Cawsant gyfarfod â Chydlynydd Hyfforddi Seintiau Bangor, Daf Roberts, a gyflwynodd chwaraewyr y clwb ac amlinellu sut y bydd y cyllid yn caniatáu hyfforddiant gyda'r nos gyda goleuadau gwell. Mae'r clwb, sydd â bron i 100 o chwaraewyr rhwng 7-17 oed, yn bwriadu defnyddio'r arian ar gyfer eu prosiect 'Lights on for Footie' i brynu llifoleuadau cludadwy a fydd yn galluogi sesiynau nos gydol y flwyddyn.



## Community fund success is a blessing for Bangor Saints Football Club

On March 13, Andy Dunbobbin visited Bangor Saints Football Club at the Byw'n Iach Leisure Centre. He gained an insight into the club's impactful work with local youth and learnt how funding from the Your Community, Your Choice initiative is supporting their community efforts.

During his visit, Commissioner Dunbobbin was accompanied by local PCSO David Griffiths and Gwynedd High Sheriff Janet Phillips. They met with Bangor Saints' Coaching Coordinator Daf Roberts, who introduced the club's players and outlined how the funding will allow evening training with improved lighting. The club, which has nearly 100 players aged 7-17, plans to use the money for their 'Lights on for Footie' project to purchase portable floodlights enabling year-round evening sessions.

---

### Erthyglau allweddol o'r cyfryngau | Key articles from across the media

- Cambrian News: North Wales campaign highlights online gaming safety | cambrian-news.co.uk *(Erthygl Saesneg)*
- InYourArea: Work of Porthi Dre youth club in Caernarfon applauded | InYourArea Community *(Erthygl Saesneg)*
- Golwg360: Comisiynydd Heddlu'r Gogledd yn ymrwymo i'r Gymraeg ar drothwy Dydd Gŵyl Dewi – Golwg360

---

**SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU | OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES**


Rydych chi'n derbyn yr e-bost hwn oherwydd eich bod wedi cofrestru i dderbyn ein e-byst cylchlythyrau.
You are receiving this email as you signed up to receive our newsletter updates.

Eisiau newid sut rydych chi'n derbyn yr e-byst hyn?
Cysylltwch â ni drwy socialmedia@northwales.police.uk i ddiweddaru eich dewisiadau neu ddad-danysgrifio o'r rhestr hon.

Want to change how you receive these emails?
Contact us via socialmedia@northwales.police.uk to update your preferences or unsubscribe from this list.



Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
Pencadlys yr Heddlu
Glan y Don
Bae Colwyn
Conwy LL29 8AW

Office of the Police and Crime Commissioner North Wales
Police Headquarters
Glan y Don
Colwyn Bay
Conwy LL29 8AW



Gallwch ddarllen ein polisi preifatrwydd yma:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/cy/polisi-preifatrwydd

You can read our privacy policy here:
https://www.northwales-pcc.gov.uk/privacy-policy